Blaenau Gwent Biodiversity Partnership
Partneriaeth Bioamrywiaeth

Torfaen Biodiversity Partnership
Partneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Astudiaeth Achos

## Torfaen yn newid y system torri glaswellt





# Mae Partneriaeth Natur Lleol Blaenau Gwent a Thorfaen wedi defnyddio cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i amrywio system torri glaswellt Torfaen

Yn 2020, gweithiodd staff y Tîm Ecoleg a Thirwedd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBST) gyda Chydgysylltydd Partneriaeth Natur Lleol (PNLl) Vee Brannovic er mwyn manteisio i'r eithaf ar ymatebion cadarnhaol gan y cyhoedd i'r glaswelltiroedd a'r lleiniau ymylon ffyrdd nad oeddent wedi'u torri yn ystod y cyfnod clo. Cefnogodd Vee y tîm Gwasanaethau Stryd i wneud newidiadau dramatig i'r ffordd y caiff glaswelltiroedd cyhoeddus eu rheoli er mwyn eu gwella o ran bioamrywiaeth a llesiant. Cafodd cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ei ddefnyddio i ddarparu peiriannau, arolygon, mapiau ac amseroedd staff newydd i weithredu newidiadau o ran torri glaswellt.

Dywedodd Vee, 'Mae'r berthynas rhwng y Tîm Ecoleg a Thirwedd a staff cynnal a chadw tiroedd wedi newid yn sylweddol'. Aeth ymlaen, 'Rydym wedi gweld dull cydweithredol newydd ynghylch gwneud penderfyniadau i reoli detholiad o safleoedd glaswelltiroedd yn ofalus. Mae'r newidiadau o ran torri glaswellt wedi'u cynnwys yng Nghynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur newydd y Cyngor. Gwnaeth y gwaith blaenorol a gyflawnwyd gan staff yn CBST i ddatblygu arferion gorau o ran rheoli glaswelltir ar gyfer bioamrywiaeth helpu i ddechrau gwneud newidiadau ar raddfa llawer yn fwy.'

Ers i'r system newydd ddechrau yn 2020, mae arolygon a gynhaliwyd gan gontractwyr wedi nodi bod nifer o ardaloedd ble nad yw'r glaswellt wedi'i dorri yn ardaloedd 'gwerthfawr iawn o ran gwarchod natur'.



Gwely o flodau gwyllt yn ffynnu diolch i system torri glaswellt newydd yng Nghroesyceiliog



Peiriant newydd i reoli'r broses o dorri a chasglu




Enghraifft o daflen wybodaeth a ddosbarthwyd gan dîm Gwasanaethau Stryd i bobl chwilfrydig a oedd yn pasio

O ganlyniad, mae dau safle yn Nhorfaen, ble roeddent yn arfer torri'r glaswellt yn rheolaidd, yn gymwys fel 'Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol' oherwydd yr amrywiaeth o flodau gwyllt sy'n tyfu yno bellach.

Y tu ôl i'r llenni, gweithio Arweinydd y Tîm Ecoleg a Thirwedd gydag Aelodau etholedig ac uwch aelodau o staff CBST er mwyn codi ymwybyddiaeth o fanteision newid arferion torri glaswellt a'r dulliau mwyaf cynaliadwy o gyflawni hyn. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae ardaloedd wedi cael eu hadu â chymysgedd o hadau blodau gwyllt lliwgar, ond mae ymchwil diweddar yn dangos mai caniatáu i rywogaethau cynhenid dyfu a lledaenu'n naturiol yn ystod y gwanwyn a'r haf, ac yna eu torri a'u casglu yn ystod yr hydref a'r gaeaf, yw'r ffordd fwyaf buddiol a chost-effeithiol o gynyddu nifer y blodau gwyllt.

Mae Vee a'r tîm yn cynnal rhagor o arolygon ar leiniau ffyrdd a fydd gobeithio yn cynyddu nifer y safleoedd dynodedig, ac arddangos ymhellach bod rheoli glaswelltiroedd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i natur yn Nhorfaen. Mae gwaith arall wedi'i gyflawni i ddiweddaru mapiau'r glaswelltiroedd a reolir, er mwyn galluogi staff gweithredol i weld safle, a'r rheolaeth a argymhellir ar ei gyfer, wrth iddynt weithio. Mae hyn hefyd wedi helpu i dynnu sylw at ardaloedd y dylid eu blaenoriaethu o ran newid yr arferion torri glaswellt a gwella'r cysylltiad rhwng safleoedd yn y dyfodol.

# Preswylwyr Heol Golff

Yn 2020, cafodd ardal ar ben Heol Golff, Pont-y-pŵl, ei chynnwys yn y rhestr o safleoedd i gael eu rheoli ar gyfer blodau gwyllt. Fodd bynnag, gwnaeth grŵp o breswylwyr fynegi pryder am y cynnig. Trefnodd staff o dîm Ecoleg a Thirwedd i gwrdd â'r preswylwyr i drafod y pryderon hynny. I ddechrau, roedd y preswylwyr yn benderfynol eu bod am i'r safle gael ei reoli yn ôl yr arfer, h.y. torri'r glaswellt yn aml drwy gydol yr haf er mwyn cadw'r glaswellt yn fyr. Ar ôl trafodaeth, gwnaethant gyrraedd cyfaddawd, a chytunwyd i dreialu newid arferion torri un rhan o'r safle. Byddai'r gweddill yn parhau i gael eu cynnal yn yr un ffordd ag o'r blaen. Pe byddai'r cynllun treialu yn gweithio, yna byddai'r ardal blodau gwyllt yn cael ei hehangu. Erbyn diwedd y cyfarfod, gofynnodd y preswylwyr a fyddent yn gallu plannu rhywfaint o flodau gwyllt eu hunain. Darparwyd y rhain drwy gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac fe'u plannwyd gan breswylwyr. Mae angen cyflawni gwaith ar y safle o hyd ond mae'n arddangos pwysigrwydd deialog a chynhwysiant wrth ystyried newidiadau i ardaloedd gwyrdd.

Y sefyllfa bresennol o ran rheoli'r safle, yn 2022, yw parhau i dorri ymylon y llwybr a chanol y safle, gan adael i'r ochrau llethrog dyfu yn ystod yr haf. Mae blodau gwyllt wedi'u plannu ar hyd yr ochr i gyflymu'r broses o greu gweirglodd.



Gadael ochrau'n hirach i annog blodau gwyllt



Blodau gwyllt a ddarparwyd gan Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac a blannwyd gan breswylwyr



Preswylwyr lleol yn gofalu am y safle

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG46196, ISBN digidol 978-1-80391-923-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg